sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# DAB ar raddfa fach: ymatebion i alwad Ofcom am ddatganiadau o ddiddordeb

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Tachwedd 2018

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion yr ymatebion a gafodd Ofcom i'n galwad am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer DAB ar raddfa fach.

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg o'r ymatebion 1

2. Pwyntiau cyffredinol i randdeiliaid eu nodi ar yr ymatebion i'r datganiadau o ddiddordeb 2

# 1. Trosolwg o'r ymatebion

1.1 Daeth galwad Ofcom am ddatganiadau o ddiddordeb gan bartïon sydd â diddordeb mewn gweithredu amlblecsau DAB ar raddfa fach yn y dyfodol a/neu sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau ar yr amlblecsau hyn, i ben ar 21 Medi 2018.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys tri map a rhestri ar ffurf tablau sy'n cyd-fynd â nhw sy’n dangos y lleoliadau daearyddol lle cafwyd datganiadau o ddiddordeb. Fel y gwnaethom pan gyhoeddwyd ein galwad am ddatganiadau o ddiddordeb, nodwn mai'r bwriad oedd ein helpu ni i ddeall lefelau tebygol y galw gan y rhai sy'n dymuno gweithredu amlblecsau DAB bach a’r gwasanaethau a all gael eu cludo arnynt. Nid yw'r datganiadau o ddiddordeb yn rhoi unrhyw hawl na rhwymedigaeth ar ymatebwyr, na chwaith y mapiau a'r rhestrau rydym ni nawr yn eu cyhoeddi.

1.3 Mae'r mapiau'n dangos pwynt sy'n nodi pob lleoliad lle’r ydym wedi cael un neu ragor o ddatganiadau o ddiddordeb. Mae'r pwynt hwn yn dynodi canol daearyddol bras y dyhead am ddarpariaeth ardal a fynegwyd gan yr ymatebydd.

- Mae Map 1 yn dangos lleoliadau lle nododd un neu ragor o ymatebwyr ddiddordeb mewn gweithredu amlblecs ar raddfa fach.
- Mae Map 2 yn dangos lleoliadau lle nododd un neu ragor o ymatebwyr ddiddordeb mewn gweithredu gwasanaeth rhaglenni ar amlblecs ar raddfa fach.
- Mae Map 3 yn dangos lleoliadau lle nododd un neu ragor o ymatebwyr ddiddordeb mewn gweithredu amlblecs ar raddfa fach a nodi un neu ragor o wasanaethau rhaglenni ar ei gyfer.

1.4 Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys tablau sy'n cyd-fynd â'r lleoliadau unigol lle cawsom ddatganiadau o ddiddordeb. Mae tri thabl, gyda phob un yn cyfateb i un o'r tri chategori uchod. Mae enwau’r ardaloedd yn y tablau yn adlewyrchu'r brif ardal (ardal, tref, dinas neu ardal ehangach) lle datganodd yr ymatebwyr ddiddordeb mewn gwasanaethu. Lle cafwyd mwy nag un datganiad o ddiddordeb yn yr un lleoliad, dangosir nifer y datganiadau o ddiddordeb.

1.5 Nid yw enwau ardaloedd yn y tablau hyn bob amser yn cyfateb yn union â'r disgrifiad ysgrifenedig a gyflwynwyd gan ymatebwyr. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir pan fo anghysondeb posibl rhwng map ardal y ddarpariaeth a gyflwynwyd gan yr ymatebydd a'i ddisgrifiad ysgrifenedig, neu lle cafwyd sawl datganiad o ddiddordeb ar gyfer ardaloedd sy'n debyg i'w gilydd yn fras. Rydym hefyd wedi golygu enwau lleoliadau mewn nifer fach o achosion er mwyn peidio â nodi ymatebwyr.

# 2. Pwyntiau cyffredinol i randdeiliaid eu nodi ar yr ymatebion i'r datganiadau o ddiddordeb

2.1 Mae’r Llywodraeth Brydeinig wedi cadarnhau yn ei hymateb Llywodraeth diweddaraf ei bwriad i gyfyngu ar ardal darpariaeth pob amlblecs DAB ar raddfa fach i uchafswm o 40% o'r boblogaeth a wasanaethir gan yr amlblecs DAB masnachol lleol presennol ym mhob ardal (os oes un). Nodwn fod rhai dyheadau ynghylch darpariaeth amlblecs a gafwyd fel rhan o'r broses datganiadau o ddiddordeb yn uwch na'r terfyn hwn.


2.2 Dim ond ychydig iawn o’r sbectrwm trosglwyddo fydd ar gael ar gyfer DAB ar raddfa fach, ac ni fydd yn bosibl i'r adnodd hwn gwrdd â'r holl alw a ddatganwyd fel rhan o'r broses datgan diddordeb.

2.3 Bydd yn rhaid i Ofcom asesu ymarferoldeb dyheadau ardaloedd darpariaeth yr ymatebwyr (o safbwyntiau trosglwyddo ac argaeledd y sbectrwm) yn dilyn y datganiadau o ddiddordeb hyn.

2.4 Bydd Ofcom yn parhau i ddatblygu senarios cynllunio sbectrwm yn seiliedig ar y datganiadau o ddiddordeb a gawsom. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu diffinio cynllun sbectrwm terfynol ar hyn o bryd. Yn lle hynny, bydd ein hymgynghoriad sydd ar ddod ynghylch gweithredu'n fanwl y fframwaith trwyddedu DAB ar raddfa fach (y disgwylir iddo gael ei chyhoeddi yn 2019) yn gofyn am farn ar yr egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i gynllunio’r sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach a'r ffordd y byddwn yn cymhwyso'r egwyddorion hynny. Mae'n bwysig nodi y bydd amrywiaeth o ddewisiadau dyrannu, a bydd y trafodaethau a'r cyfaddawdau sy'n gysylltiedig â'r dewisiadau hyn yn cael eu pennu gan Ofcom.

2.5 Rydym hefyd wedi cael datganiadau o ddiddordeb mewn gwasanaethu Ynysoedd y Sianel fel rhan o'r broses hon. Fodd bynnag, fel Tiriogaethau Dibynnol y Goron, nid yw deddfwriaeth y Deyrnas Unedig (fel y ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer DAB ar raddfa fach) yn cael ei mabwysiadu'n awtomatig yn Ynysoedd y Sianel. Nid yw'n glir eto a fydd gweinyddiaethau Jersey a Guernsey yn mabwysiadu'r ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach, er ein bod yn gobeithio y bydd y sefyllfa'n dod yn fwy eglur maes o law.


## Map 1: Datganiadau o ddiddordeb DAB ar raddfa fach a gafwyd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni yn unig



## Tabl 1: Datganiadau o ddiddordeb DAB ar raddfa fach a gafwyd ar gyfer amlblecsau yn unig yng Nghymru

| Ardal |
|---|
| Caerdydd |
| Casnewydd a Chwmbrân |


## Map 2: Datganiadau o ddiddordeb DAB ar raddfa fach a gafwyd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni yn y Deyrnas Unedig



## Table 2: Datganiadau o ddiddordeb mewn DAB ar raddfa fach a gafwyd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni yn unig yng Nghymru

| Ardal | Nifer y datganiadau pan oedd mwy nag un |
|---|---|
| Aberhonddu | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | |
| Caerdydd | Tri datganiad o ddiddordeb |
| Caerdydd - Canol | |
| Porthcawl | |
| Abertawe | Dau ddatganiad o ddiddordeb |
| Abertawe a Phorthcawl | Dau ddatganiad o ddiddordeb |
| Bro Morgannwg | |

## Map 3: Datganiadau o ddiddordeb mewn DAB ar raddfa fach a gafwyd ar gyfer amlblecsau ar raddfa fach gydag un neu ragor o wasanaethau rhaglenni wedi eu nodi yn yr un datganiad



## Tabl 3: Datganiadau o ddiddordeb mewn DAB ar raddfa fach ar gyfer amlblecsau ar raddfa fach gydag un neu ragor o wasanaethau rhaglenni wedi eu nodi yn yr un datganiad o ddiddordeb yng Nghymru

| Ardal | Nifer y datganiadau pan oedd mwy nag un |
|---|---|
| Aberystwyth | |
| Ynys Môn | |
| Ynys Môn a Gogledd Gwynedd | |
| | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | |
| Caerdydd | Tri datganiad o ddiddordeb |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | |
| Bae Colwyn | Dau ddatganiad o ddiddordeb |
| Llanelli | |
| Casnewydd | Dau ddatganiad o ddiddordeb |
| Casnewydd a Chas-gwent | |
| Sir Benfro | |
| Powys | |
| Prestatyn | |
| Y Rhyl | |
| Abertawe a Llanelli | |
| Abertawe a Phorthcawl | |
| Cymoedd Cymru | |